COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 30 IONAWR 2025 AM 10:00

Yn bresennol

G Chapman - Cadeirydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | M L Hughes | R M Granville | N Clarke |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | |
|---|---|
| S J Griffiths | M J Williams |

Aelodau Lleyg - yn Bresennol yn Rhithiol:

| | | |
|---|---|---|
| B Olorunnisola | A Bagley | D Austin |

Mynychwyr:

| | |
|---|---|
| J Spanswick | J Gebbie |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Easterbrook a R J Smith

Datganiadau o Fuddiant

Dim un

**This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Chris Morris | Cyfrifydd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Samantha Clements | Archwilio Cymru |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Philip O'Brien | Rheolwr Trawsnewid Digidol a Gwasanaethau Cwsmer |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |

## 194. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyn Cofnodion cyfarfod 28 Tachwedd 2025 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 195. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Aelodau a'u diweddaru ar gydweithrediad rhwng y Pwyllgor a'r Pwyllgorau Craffu.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd am alw'r cyfarfod hynod gynhyrchiol ynghyd â'r Cadeiryddion Craffu ar 9 Rhagfyr 2024.<br>• Rhoi'r camau gweithredu cytunedig ar waith mewn perthynas â'r Milltiroedd a Deithiwyd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau drosolwg o'r materion a wynebodd y gwasanaeth wrth roi'r camau gweithredu cytunedig ar waith ac |

**This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.**

| | |
|---|---|
| | amlinellodd ffordd ymlaen, gan gynnwys cyflwyno polisi mwy cadarn a chynnal adolygiad o'r fflyd.<br>• Mewn ymateb i'r cais gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r atgyfeiriad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2024, y dylai Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPCC) gael ei hatgyfeirio i'r pwyllgor craffu perthnasol, nododd y Cadeirydd bod hwn yn wasanaeth a ddarparwyd i gonsortiwm o gynghorau gan un awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Ddinbych, a bod yr Aelodau am wybod a oedd opsiynau eraill, yn ogystal â phwy oedd yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd a monitro, ac ai dyma'r ffordd fwyaf cost effeithiol o ddarparu'r gwasanaeth.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a'r dull arfaethedig ar gyfer cydweithrediad rhwng y Pwyllgor Craffu a Llywodraethu a'r Pwyllgorau Archwilio a chynigiodd sylwadau, fel bo'n briodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

**196. Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno un adroddiad i'r Pwyllgor gan Archwilio Cymru ar 'Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol.'<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ddifrifol iawn a'i bod yn glir bod y risgiau ynghylch y gwasanaethau a ddarparwyd gan y cynghorau'n cael eu tanbrisio ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru a'r DU. Nid o ganlyniad i gamreoli neu weithrediadau aneffeithiol oedd y pwysau costau. Yn hytrach, canlyniad i newid diwylliannol a demograffeg oedd hyn, anghenion plant a phobl hŷn, o ofal cymdeithasol yn gyffredinol, ac er bod y materion yn hawdd eu rheoli yn y tymor byr, nid yw'r dull presennol yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Roedd angen mynd ati i feddwl mewn ffordd strategol a oedd yn llawer mwy hirdymor a chreadigol.<br>• P'un a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiad. Nododd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ymateb hyd yma.<br>• Bod yr adroddiad yn dangos bod gan gynghorau yng Nghymru lawer yn gyffredin a bod pob un ohonynt yn wynebu'r un problemau a phwysau. Er, yn ddiddorol, dengys hefyd bod Pen-y-bont ar Ogwr mewn sefyllfa ffafriol iawn o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mewn ymateb, nododd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru ei bod yn anodd cymharu cynghorau oherwydd y gwahaniaethau |

| | |
|---|---|
| | mewn demograffeg a chymhlethdod y materion y bu'n rhaid iddynt eu rheoli o ran darparu eu gwasanaethau, ond bod y data hwnnw ar gael pe bai'r Cyngor yn awyddus i gymharu ei hun â chynghorau eraill.<br>• Mae angen ystyried sut y gellir annog sefydliadau partner i weithio a chynllunio ar y cyd ar gyfer y dyfodol.<br>• Mewn ymateb i'r drafodaeth, bu i'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, atgoffa'r Aelodau po bellaf allan yr ewch chi o ran cynllunio, y prinaf yw'r wybodaeth ac mae'r tybiaethau y mae'n rhaid eu gwneud yn llai seiliedig ar dystiolaeth a mwy ar ddyfalu. Y broblem yw mai setliadau blynyddol yn unig drwy Lywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd, felly byddai amcanu saith mlynedd i'r dyfodol yn heriol.<br>• Bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gofyn i awdurdodau lleol ystyried lle byddant o bosib ymhen hanner can mlynedd.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Archwilio Cymru ar 'Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol.' |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

**197. Asesiad Risg Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad o Asesiad Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor, Adolygir yr Asesiad Risg Corfforaethol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o fframwaith Asesiad Perfformiad Corfforaethol chwarterol y Cyngor. Mae'r Asesiad Risg Corfforaethol wedi ei ystyried a'i adolygu mewn ymgynghoriad gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Mae pob risg wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r risgiau corfforaethol presennol sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Diolchodd un o'r Aelodau i'r swyddogion am gyflwyno adroddiad a oedd yn llawer haws i'w ddarllen na'r rhai blaenorol.<br>• Roedd angen ystyried a dadansoddi ymhellach ar ddau fater, gan fod disgwyl iddynt ddod yn faterion pwysig yn yr hirdymor: yn gyntaf, pe na bai'r cyngor yn gallu cyflawni trawsnewid a newid mawr o ran gwasanaeth, yn cynnwys prosiectau ac arbedion ariannol cytunedig (COR-2019-02); ac yn ail, bregusrwydd ariannol yr ysgolion yn y Fwrdeistref (EDFS-2024-01). |

| | |
|---|---|
| | • O ystyried y newidiadau demograffeg ac anghenion cymhleth rhai plant, byddai'n well darparu llawer o'r gwasanaethau sydd eu hangen i'w cefnogi nhw fel rhan o weithrediad canolog yn hytrach na chael eu trefnu gan ysgolion unigol.<br>• Bod, y tu hwnt i'r prif risgiau corfforaethol, amrywiaeth o gyfrifoldebau a gwasanaethau statudol llai ond sy'n llawn mor bwysig y mae'n rhaid i'r cyngor eu goruchwylio ond sy'n fwyfwy anodd i'w rheoli a'u darparu. Roedd hi'n ofynnol i bob maes gwasanaeth asesu risg y tebygolrwydd o fethu neu beidio â chyflawni er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn parhau ar waith. Roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd a chytbwys drwy'r amser.<br>• Roedd angen gwneud mwy o ran recriwtio a chadw ac o ran gweithio gyda Chyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor yr Asesiad Risg Corfforaethol (Atodiad A); a chytunodd y Pwyllgor ar y newidiadau a gynigwyd ym mharagraff 3.2 cyn cyflwyno'r Asesiad Risg Corfforaethol am gymeradwyaeth ar 26 Chwefror. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

**198. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno drafft o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26 (TMS). Mae'r TMS yn ymgorffori'r Strategaeth Fenthyca, Strategaeth Fuddsoddi a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Statws buddsoddiadau di-drysorlys, eiddo buddsoddi, gwerth £4.990 miliwn ar 31 Mawrth 2024, ac a fyddai'n fanteisiol eu gwerthu nhw, er eu bod yn cynhyrchu incwm i'r Cyngor. Mewn ymateb, cynigiodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, anfon nodyn i'r Aelodau yn crynhoi statws presennol yr eiddo buddsoddi sy'n berchen i'r Cyngor.<br>• Diolchodd un o'r Aelodau i'r swyddogion am ymateb i'r cais am gynnwys rhestr termau gyda'r adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r copi drafft o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025-26 ac argymhellodd bod y copi terfynol a chyfredol o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n adlewyrchu'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2024, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 26 Chwefror 2025. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 199. Datganiad o Gyfrifon 2023-24: Gwersi a Ddysgwyd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r gwersi a ddysgwyd i'r Pwyllgor yn dilyn cwblhau'r archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2023-24. Cafodd Datganiad Cyfrifon 2023-24 y Cyngor ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Tachwedd 2024 a'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 29 Tachwedd 2024. Bydd angen i'r Datganiad o Gyfrifon 2024-25 a archwiliwyd gael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio erbyn 31 Hydref 2025, cyn dyddiad ei gyhoeddi.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Datblygiad diweddar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac a ellid gwneud mwy i hysbysu Aelodau, swyddogion a'r gymuned ehangach am ei waith; a ph'un a oes angen inni gyfrifo amdano mewn gwahanol ffyrdd mewn dogfennau fel y Datganiad o Gyfrifon. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y byddai'r cyfrifyddu, mewn gwirionedd, yr un fath gan y byddai ein helfen ni o'r CJC yn cael ei chynnwys yn ein datganiad o gyfrifon.<br>• Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y byddai'n fanteisiol cael aelod yn briffio ar y CJC er mwyn amlinellu'n union pa newidiadau a wnaed, yn cynnwys y strwythurau llywodraethu, a lle'r Fwrdeistref Sirol oddi mewn iddo.<br>• Y materion ynghylch rhoi argymhelliad Archwilio Cymru ar waith mewn perthynas â chyflyno System Rheoli Asedau (AMS), a'r mesurau dros dro sy'n cael eu cyflwyno i osgoi rhai o'r heriau a gododd y llynedd.<br>• Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion a chydweithwyr Archwilio Cymru am eu gwaith ar y Datganiad o Gyfrifon a nododd bod angen ystyried sut y gellid dod â'r Cofnodion o strwythurau llywodraethu'r CJS i'r Cyngor er mwyn galluogi'r Aelodau i ystyried materion a datblygiadau hollbwysig. Roedd hwn yn fater i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol i'w ystyried yn y lle cyntaf. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 200. Cwynion Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y broses bresennol a chynnig ffordd y caiff holl gwynion corfforaethol eu monitro, eu cofnodi a'u hadrodd wrth symud ymlaen.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Pwysigrwydd cofnodi cwynion a wneir i gynghorwyr.<br>• Yr angen am ddiffiniad cadarn o gŵyn, gan ystyried y rhoddir system newydd i reoli cwynion ar waith. Y byddai'n fanteisiol trafod y mater hwn gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br>• Yr angen i sicrhau bod amserlenni cytunedig ar gyfer datrys cwyn yn cael eu bodloni a bod y rhesymau'n cael eu cofnodi a'u trafod lle nad yw hyn yn bosibl. Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - Trawsnewid, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Phartneriaethau i hyn drwy ddweud y byddai'r system newydd yn galluogi'r Cyngor i awtomeiddio rhai o'r prosesau a reolir yn anawtomataidd ar hyn o bryd, gan gynnwys categoreiddio cwynion, anfon cwynion ymlaen i gael eu datrys gan meysydd gwasanaeth penodol, a'r broses uwchgyfeirio. Byddai'r system wedyn yn gallu cynhyrchu adroddiadau perfformiad a fyddai'n galluogi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried a mynd ar drywydd methiannau difrifol.<br>• Bod angen rhoi sylw i faterion yn ymwneud â chostau diffyg cydymffurfio o ran gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig.<br>• Bod angen sicrhau bod cynifer â phosib o swyddogion sy'n delio'n uniongyrchol â chwynion yn cael eu cynnwys yn y system newydd, a'u bod yn gweithredu fel tîm rhithiol i sicrhau bod y system gwynion yn gweithredu mewn ffordd gyson ac eglur.<br>• Bod cofnodi canmoliaeth hefyd yn bwysig. Gallai canmoliaeth weithredu fel catalydd i gefnogi diwylliant cadarnhaol yn yr awdurdod lleol, gan leihau amrywiant a hybu arloesedd.<br>• Pwysigrwydd cynnal y system newydd a sicrhau parhad y gwasanaeth os bydd swyddogion yn gadael yr awdurdod. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor fod y broses cwynion corfforaethol wedi cael ei hadolygu a bod proses newydd a datrysiad digidol ar fin cael eu datblygu, a gofynnwyd i gael diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r system newydd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mehefin. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 201. Cyflwyniad ar y Safonau Archwilio Mewnol Cyffredinol (GIAS)

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd darparu cyflwyniad i Aelodau ar y Safonau Archwilio Mewnol Cyffredinol (GIAS) newydd, a fydd yn disodli Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bydd y GIAS yn dod i rym yn y sector cyhoeddus ar 1 Ebrill 2025. Dyma'r prif newidiadau:<br><br>• 'mandad' ar gyfer archwilio mewnol; mewn llyw leol, mae'r mandad ar gyfer archwilio mewnol yn dod o reoliadau statudol.<br>• strategaeth archwilio mewnol<br>• dewrder proffesiynol ac amheuaeth broffesiynol<br>• Cynlluniau Archwilio Mewnol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y seydliad.<br><br>Wrth ymateb i'r adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd i gael y sleidiau PowerPoint wedi'u rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor. Dywedodd hefyd y gellid darparu cyflwyniad byr arall petai unrhyw beth arall yn codi yn ystod y misoedd nesaf.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd Aelodau'r Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 202. Cynnydd yn Erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol Seiliedig ar Risg 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio o fewn y Cynllun Archwilio Mewnol Seiliedig ar Risg 2024-25 a gymeradwywyd. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Gan ystyried y targed o 80% ar gyfer cwblhau archwiliadau erbyn diwedd y flwyddyn, p'un a fyddai'r rhai na chaiff eu cwblhau yn destun pryder. Mewn ymateb, nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) nad oedd hi'n glir eto pa archwiliadau fyddai'n rhan o'r 20%, ond bod RIAS yn gweithio i sicrhau bod cymaint o archwiliadau â phosibl yn cael eu cwblhau. Os oes unrhyw rai heb eu cwblhau, byddai hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor er mwyn asesu a oes angen i unrhyw rai gael eu nodi fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn y cynllun 2025-26.<br>• Statws yr archwiliad sy'n ymwneud â chynllunio dilyniant busnes, y rhoddwyd barn cyfyngedig iddo. Mewn ymateb, nododd Pennaeth y RIAS bod yr adroddiad drafft wedi'i gyhoeddi ac y byddai'n dod ag o gerbron y Pwyllgor ar ôl iddo gael ei gwblhau.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd Aelodau'r Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol Seiliedig ar Risg 2024-25. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 203. Adroddiad Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu datganiad sefyllfa i Aelodau'r Pwyllgor ar yr argymhellion archwilio mewnol a wnaed, a weithredwyd ac nad ydynt wedi'u rhoi ar waith fel ag yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2024, ac ystyried y wybodaeth a ddarparwyd o ran statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Wrth ymateb i’r adroddiad, tynnodd y Cadeirydd sylw at nifer o argymhellion a oedd heb eu rhoi ar waith o ran milltiredd o’r cartref i’r gwaith, diogelwch a mynediad i adeiladau’r Cyngor, ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, a chaffael. Dywedodd fod angen monitro’r rhain yn ofalus, ac y byddai diweddariad yn cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad ac gwnaethant ystyried y wybodaeth a ddarparwyd o ran statws |

| | |
|---|---|
| | yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 204. Diweddariad ar y System Dracio Reoleiddiol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y System Dracio Reoleiddiol a ddiweddarwyd hyd at ddiwedd chwarter 2 o 2024-25.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Bod yr adroddiad yn awgrymu bod materion heb eu datrys o ran y broses ar gyfer ystyried atgyfeiriadau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i bwyllgorau craffu. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd hyn, gan dynnu sylw eto at y dull cydweithredol a ddisgrifir yn y Cofnod Gweithredu, a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod.<br>• Bod yr adroddiad yn nodi bod nifer o gamau i'w cwblhau yn dilyn arolygiadau/archwiliadau gan rai o'r prif reoleiddwyr gwasanaethau llywodraeth leol.<br>• Dywedodd y cadeirydd fod y system dracio reoleiddiol yn gweithio, gan ei bod yn galluogi Aelodau i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion mewn ffordd eglur a chryno.<br>• Dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid nad oedd yn siwr a oedd yr holl naratifau yn gyfredol ac y byddai'n mynd â'r system dracio at y Bwrdd Rheoli Corfforaethol i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Byddai diweddariadau a diwygiadau, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar ddata C3, wedi eu cofnodi yn yr adroddiad nesaf a gyhoeddir.<br>• Dywedodd y Cadeirydd fod angen i swyddogion cyfrifol fod yn atebol am roi'r camau cytunedig ar waith.<br>• A fyddai'n bosib gosod yr adroddiad wedi'i ddiweddaru fel yr eitem sylweddol gyntaf ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor bwyntiau'r crynodeb a'r system dracio reoleiddiol fanwl, gan godi materion sy'n destun pryder i fynd ar eu trywydd. Gofynnodd yr Aelodau i gael gweld adroddiad wedi'i ddiweddaru yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Ebrill 2025. |

**This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 205. Blaenraglen Waith 2024-25 a 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer fersiwn wedi'i diweddaru o Flaenraglen Waith 2024-25 a fersiwn ddrafft o Flaenraglen Waith 2025-26.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd a thrafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y posibilrwydd y bydd angen cyfarfod arbennig i ystyried rhai materion yn fanylach. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod hyn gyda'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid.<br>• Bod angen rhoi sylw i ddull gweithredu y Cyngor o ran cynllunio a meddwl strategol hirdymor. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod hyn gyda'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y fersiwn wedi'i diweddaru o Flaenraglen Waith 2024-25 a'r fersiwn ddrafft o Flaenraglen Waith 2025-26, ar yr amod fod yr adroddiadau ychwanegol canlynol yn cael eu hychwanegu ar agendâu dau gyfarfod:<br><br>24 Ebrill 2025<br><br>• Diweddariad ar y System Dracio Reoleiddiol.<br><br>19 Mehefin 2025<br><br>• Adroddiad ar filltiredd o'r Cartref i'r Gwaith.<br>• Adroddiad cynnydd ar weithredu'r system gŵynion newydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

## 206. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |

**This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.**

GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE - THURSDAY, 30 JANUARY 2025

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Ionawr 2025 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 12:59.

**This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.**